Hawdd i'w Ddeall

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ein Cynllun Cydraddoldeb

## Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg pan fyddan nhw yn defnyddio ein gwasanaeth ac yn gweithio i ni



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ein Cynllun Cydraddoldeb**'.

**Medi 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.ombwdsmon.cymru

**E-bost:** ask@ombudsman.wales

**Ffôn**: 0300 790 0203

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Contents


**Amdanom ni ............ 4**

**1. Cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein g sanaeth cwynion ............ 11**

**2.Siarad mwy gyda grwpiau gwahanol o bobl i helpu i wella ein gwasanaethau ............ 15**

**3. Gwneud yn siŵr bod gwahanol grwpiau o bobl yn gwybod amdanom ni a beth rydyn ni’n gallu ei wneud ............ 17**

**4. Gwneud mwy o’n gwybodaeth yn hygyrch ............ 19**

**5. Helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cwyno’n hawdd i’r sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus ............ 21**

**6. Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cynrychioli holl bobl Cymru ............ 23**

**7. Edrych i weld os ydy menywod yn cael eu talu’n deg ............ 25**

Pwy fydd yn edrych i weld ein bod yn cyflawni ein nodau ............ 26

Sut fyddwn ni yn gwybod ein bod ni yn cyflawni ein hamcanion ............ 27

**Geiriau Anodd ............ 28**

# Amdanom ni

Ni ydy **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.


Mae gennym ni 3 prif swydd:



- Rydyn ni yn ymchwilio i gwynion am **wasanaethau cyhoeddus**. Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn wasanaethau sy’n cael eu rhedeg i’r cyhoedd. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau sy’n cael eu rhedeg gan gynghorau lleol.



- Rydyn ni yn edrych ar gwynion am **gynghorwyr** yn torri rheolau. Mae **cynghorydd** yn berson sy’n cael ei ethol mewn cyngor lleol.



- Rydyn ni yn cefnogi gwneud gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus a chynghorau lleol yng Nghymru.

**Dyma ein hamcanion:**



- Bod pobl Cymru’n teimlo eu bod yn cael eu clywed a’u trin yn deg.



- Bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwrando ar gwynion ac yn gwneud newidiadau i wella.



- Bod gan gynghorwyr lleol safonau uchel o ran gweithio.



- Ein bod yn cael ein parchu am wneud gwaith da.



Rydyn ni yn annibynnol – dydyn ni ddim yn cael ein rheoli na’n rhedeg gan y llywodraeth.



Rydyn ni yn deg i unrhyw un sydd ein hangen.

**Y gyfraith**




Rydyn ni yn gweithio gyda chyfraith o’r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010**.



Mae’r ddeddf yma yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal, yn deg ac yn dda.



Mae’n cydnabod bod llawer o bobl yn aml yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau. Mae eisiau **amddiffyn** y bobl yma rhag cael eu trin yn annheg.

Mae’r rhesymau yn **nodweddion gwarchodedig**. Mae’n meddwl pethau fel:



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich bod yn anabl.




- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich hil, eich credoau neu’ch diwylliant.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich rhyw, rhywedd neu bwy rydych chi’n ei garu.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich bod yn feichiog neu’n cymryd amser i ffwrdd o’r gwaith i ofalu am fabi.



- Cael eich trin yn annheg oherwydd eich oedran.



Mae’n rhaid bod gennym ni gynlluniau a nodau ynghylch cydraddoldeb. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn dilyn y ddeddf yma.



Pan fyddwn ni yn gwneud ein cynlluniau, rydyn ni hefyd yn edrych ar sut mae pobl yn gallu cael eu trin yn annheg oherwydd arian.



Er enghraifft, efallai y bydd gan rai pobl lai o siawns mewn bywyd pan nad oes ganddyn nhw lawer o arian.




Rydyn ni’n meddwl sut mae pethau fel hyn yn gallu effeithio ar bobl pan fyddwn ni’n gwneud ein gwaith.

Rydyn ni wedi cyflawni llawer o nodau roedden ni wedi eu gosod yn ein cynlluniau blaenorol. Er enghraifft:



- Rydyn ni wedi siarad â mwy o bobl o gymunedau nad ydyn nhw wedi siarad â ni yn y gorffennol.



- Staff yn cael eu talu'n fwy cyfartal.



- Rydyn ni yn cyflogi mwy o bobl o wahanol gefndiroedd.



Mae gennym ni lawer o waith i'w wneud o hyd. Er enghraifft, does gennym ni ddim llawer o staff anabl.




Rydyn ni yn gwybod nad ydyn ni yn gallu gwneud popeth oherwydd does gennym ni ddim digon o arian na phobl i wneud y gwaith.



Felly rydyn ni eisiau targedu pethau sydd yn gallu helpu pobl fwyaf.



Rydyn ni hefyd eisiau bod yn glir am y pethau rydyn ni wedi eu gwneud yn dda a beth rydyn ni'n gallu ei wneud yn well.




Mae gennym ni 7 prif nod fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb.




Fe fyddwn ni nawr yn siarad am y rhain a'r hyn y byddwn ni yn ei wneud i'w cyflawni.

# 1. Cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol i ddefnyddio ein gwasanaeth cwynion




Mae **anghenion mynediad ychwanegol** yn meddwl bod angen unrhyw fath o gymorth neu wybodaeth ychwanegol mewn ffordd wahanol i allu defnyddio neu wneud rhywbeth.



Rydyn ni wedi gofyn i bobl am ein gwasanaethau ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud ei bod yn hawdd cysylltu â ni.



Ond efallai y bydd rhai grwpiau o bobl yn ei chael hi'n fwy anodd. Er enghraifft:

- Pobl ag anabledd dysgu.
- Pobl hŷn.
- Pobl anabl.
- Pobl sydd heb gael addysg dda.

Efallai y byddan nhw yn ei chael hi'n fwy anodd cael mynediad i'n gwasanaethau am nifer o resymau. Er enghraifft:



- Os nad ydy gwybodaeth yn cael ei roi mewn ffordd maen nhw yn gallu ei ddeall.



- Os ydy hi'n anodd iddyn nhw gysylltu â ni.



- Os ydy hi'n anodd iddyn nhw fynd i'n swyddfeydd.




Rydyn ni yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n gwneud cwynion. Rydyn ni hefyd yn rhoi gwybodaeth mewn fformatau eraill. Er enghraifft, mewn iaith arall.




Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn trin y Gymraeg yr un fath â'r Saesneg.




Mae gennym ni bolisi newydd am hyn sydd i’w weld yma: [www.ombwdsmon.cymru/safonaur-gymraeg](http://www.ombwdsmon.cymru/safonaur-gymraeg)




Ond rydyn ni’n gwybod mai ychydig iawn o bobl sy’n defnyddio ein gwasanaeth yn Gymraeg.




Mae’r rhan fwyaf o bobl yn dweud ein bod yn **hygyrch**.

> Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn ei chael hi’n hawdd dod o hyd i rywbeth a’i ddefnyddio, beth bynnag ydy eu hanghenion.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn **hygyrch** i **bawb**.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ein bod ni yn gallu cynnig help iddyn nhw i wneud cwyn.



Rydyn ni hefyd eisiau gwella sut mae siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio ein gwasanaeth.

**Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud:**



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gwybod am yr help rydyn ni'n gallu ei gynnig.




- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am ein gwasanaeth Cymraeg.



- Fe fyddwn ni yn edrych i weld sut rydyn ni yn cefnogi pobl ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud hyn yn dda.



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod ein staff yn cael hyfforddiant fel eu bod nhw yn gwybod sut i gefnogi pobl o wahanol grwpiau'n dda.

# 2. Siarad mwy gyda grwpiau gwahanol o bobl i helpu i wella ein gwasanaethau



Rydyn ni yn gwneud llawer o waith i gael gwybod beth mae'r cyhoedd yn ei feddwl am ein gwasanaethau.



Ond, dydyn i ddim yn gwneud gwaith wedi'i dargedu i gael adborth gan ystod o **grwpiau amrywiol** o bobl.

Mae **amrywiol** yn meddwl pobl o wahanol gefndiroedd.



Rydyn ni yn credu bod angen i ni newid hyn.




Rydyn ni eisiau gwybod sut i gefnogi pobl yn well. Hefyd, pa bethau maen nhw yn eu hwynebu sydd yn gallu eu stopio rhag defnyddio ein gwasanaethau.

**Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud:**



- Fe fyddwn ni yn trefnu mwy o gyfleoedd i bobl o grwpiau **amrywiol** ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl am beth rydyn ni'n ei wneud.

# 3. Gwneud yn siŵr bod gwahanol grwpiau o bobl yn gwybod amdanom ni a beth rydyn ni'n gallu ei wneud



Fe wnaethon ni ddarganfod y flwyddyn ddiwethaf bod llai na hanner y bobl oedd yn byw yng Nghymru yn gwybod pwy oedden ni a beth rydyn ni'n ei wneud.



Roedd hyn yn cynnwys gwahanol grwpiau o bobl, er enghraifft pobl o hil wahanol, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg.

**Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod:**



- pawb yn gwybod amdanon ni




- a'n bod ni'n cael cwynion gan lawer o wahanol grwpiau o bobl - os ydyn nhw ein hangen ni.

**Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud:**



- Fe fyddwn ni yn gwneud mwy i gyfarfod gyda phobl o wahanol grwpiau wyneb yn wyneb.



- Fe fyddwn ni yn gweithio gyda mwy o sefydliadau i'n helpu i gyrraedd mwy o grwpiau.




- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod mwy o'n gwybodaeth ar gael mewn gwahanol fformatau. Er enghraifft, ieithoedd eraill a hawdd ei ddeall.

# 4. Gwneud mwy o'n gwybodaeth yn hygyrch



Mae'n bwysig iawn bod pawb yn deall ein gwybodaeth.





Rydyn ni'n credu bod angen i ni wneud mwy i wneud yn siŵr bod llawer o bobl yn gallu defnyddio ein gwefan yn hawdd.

**Dyma rai o'r pethau y byddwn ni yn eu gwneud:**



- Defnyddio ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn fwy. Mae hyn yn meddwl gwefannau fel Twitter a Facebook.



- Mwy o wybodaeth wedi ei argraffu.




- Gwneud ein gwefan yn haws i’w defnyddio.



- Gwneud mwy o fideos.

# 5. Helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cwyno'n hawdd i'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus




Un o'r pethau rydyn ni yn ei wneud ydy gwella sut mae sefydliadau'n delio â chwynion. Dyma ein **rôl Safonau Cwynion**.



Rydyn ni wedi rhoi hyfforddiant i lawer o sefydliadau am sut i ddelio gyda chwynion yn dda. Rydyn ni wedi dweud wrthyn nhw hefyd sut mae polisi cwynion da yn edrych.



Rydyn ni yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus feddwl am grwpiau o bobl sydd yn gallu ei chael hi'n anodd gwneud cwyn.





Rydyn ni yn credu bod sefydliadau, er enghraifft cynghorau lleol, yn gallu gwneud mwy o waith yma.

**Dyma beth rydyn ni eisiau ei wneud:**



- Defnyddio ein **rôl Safonau Cwynion** i weld ydy sefydliadau'n gwybod pa grwpiau gwahanol sy'n cwyno iddyn nhw.



- Annog sefydliadau i wella'r ffordd y maen nhw yn cefnogi gwahanol grwpiau i gwyno.

# 6. Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cynrychioli holl bobl Cymru



Rydyn ni yn edrych ar y staff rydyn ni yn eu cyflogi.



Fe wnaethon ni ddarganfod ein bod ni'n cyflogi staff o nifer o grwpiau o bobl.



Ond fe wnaethon ni weld fod rhai grwpiau o bobl nad oedden ni yn cyflogi digon ohonyn nhw. Er enghraifft:

- Pobl ifanc
- Pobl anabl
- Pobl sydd wedi dod o wahanol wledydd.
- Pobl **traws**

Mae **traws** yn meddwl pobl nad ydy eu rhywedd yr un fath â'r rhyw roedden nhw wedi cael eu geni ag ef.




Mae gennym ni gynllun ar waith nawr i helpu i newid hyn.

**Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud:**




- Fe fyddwn ni yn hysbysebu swyddi mewn llawer o wahanol leoedd.



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod gwneud cais am swydd gyda ni yn **hygyrch**.



- Fe fyddwn ni yn dweud wrth grwpiau o bobl ein bod yn gyflogwr cefnogol ac yn gofyn beth maen nhw'n feddwl.

# 7. Edrych i weld os ydy menywod yn cael eu talu'n deg



Rydyn ni wedi edrych ar hyn ac wedi gwneud llawer o gynnydd. Ond, oherwydd ein bod yn sefydliad bach, mae newidiadau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.



Rydyn ni yn gwybod bod angen i ni gadw golwg fanwl ar hyn.



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod ein holl staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfa.

**Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud:**



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu pan ddaw'r cyfleoedd.



- Fe fyddwn ni yn parhau i adolygu'r materion yma.

# Pwy fydd yn edrych i weld ein bod yn cyflawni ein nodau



Mae ein tîm rheoli yn gyfrifol am weld ein bod yn cyflawni ein holl gynlluniau a’n nodau.




Mae gennym ni **Brif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant**. Maen nhw’n gwneud yn siŵr ein bod ni’n dilyn yr holl ddeddfau y mae angen i ni eu dilyn a’n bod ni’n gweithio’n dda.



Mae gennym ni hefyd **Dîm Gwelliant** ac mae gennym ni **Bennaeth Polisi, Cyfathrebu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**. Mae gennym ni hefyd grŵp **cydraddoldeb**.




Eu gwaith nhw ydy edrych dros ein gwaith a helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Mae ein holl staff yn gyfrifol am wneud eu gwaith yn dda ac yn cael eu gwirio.

# Sut fyddwn ni yn gwybod ein bod ni yn cyflawni ein hamcanion




Rydyn ni yn casglu gwybodaeth gan y bobl sy’n defnyddio ein gwasanaeth, ein staff a’r bobl sy’n gweithio i ni i weld ein bod yn gweithio’n dda.

## Sut fyddwn ni yn edrych i weld ein bod yn talu sylw i anghenion gwahanol grwpiau ym mhopeth rydyn ni’n ei wneud




Bob tro y byddwn yn gwneud polisi neu brosiect newydd, rydyn ni yn edrych i weld pa effaith y byddai’n ei gael ar wahanol bobl. Rydyn ni yn cyhoeddi’r wybodaeth yma ar ein gwefan.

## Sut fyddwn ni yn helpu ein staff i ddeall sut i gefnogi gwahanol grwpiau



Rydyn ni yn rhoi hyfforddiant i staff am gydraddoldeb ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am gyfleoedd eraill i ddysgu amdano.

# Geiriau Anodd

## Anghenion mynediad ychwanegol

Mae anghenion mynediad ychwanegol yn meddwl bod angen unrhyw fath o gymorth neu wybodaeth ychwanegol mewn ffordd wahanol i allu defnyddio neu wneud rhywbeth.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn ei chael hi'n hawdd dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio, beth bynnag ydy eu hanghenion.

## Traws

Mae traws yn meddwl pobl nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw oedden nhw wedi cael eu geni ag ef.